O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2233 (Cy. 237)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd-ar-Wy i Langurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *19 Medi 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Medi 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Pontnewydd-ar-Wy i Langurig, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 19 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd rhwng Pontnewydd-ar-Wy a Llangurig yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd.

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

8 Medi 2011

*G R Morgan*

**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1) Garden Cottage – Bryn Argoed

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r de o ganolbwynt y ffordd fynediad i Borthdy Doldowlod hyd at bwynt 362 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt Pont Argoed.

2) Cilfan Marteg a'r Gamallt, ger Rhaeadr

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 306 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i'r Gamallt hyd at bwynt 385 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1216.

3) Dolhelfa Isaf a Dolhelfa Ganol, ger Llangurig

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 325 o fetrau i'r de-ddwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Ddolhelfa Isaf hyd at bwynt 450 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C1218.

4) Man i'r De o Neuadd-ddu

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 94 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt mynedfa ddeheuol Cilfan Neuadd-ddu hyd at bwynt 575 o fetrau i'r de o ganolbwynt mynedfa ddeheuol Cilfan Neuadd-ddu.